



Llywodraeth Cymru
Dogfen ymgynghori

Cyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mai 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Awst 2018

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg	Mae'r papur ymgynghori hwn yn gofyn am farn ar gyflwyno hysbysu gorfodol am ddsbarthu carcasau defaid a hysbysu prisiau yng Nghymru. Rydym yn gofyn am ymatebion ar:
Sut i ymateb	Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Manylion cyswllt	I gael rhagor o wybodaeth: Cyfeiriad: Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: ACDYmatebion@llyw.cymru
Diogelu data	Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn

ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

RHAGAIR GAN YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YNNI, CYNLLUNIO A MATERION GWLEDIG, LESLEY GRIFFITHS AC

Mae'r sector defaid yn chwarae rhan hanfodol yn y diwydiant amaeth yng Nghymru. Wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd ac ar ôl hynny, mae angen inni hwyluso tryloywder er mwyn creu cadwyni cyflenwi cryfach a mwy cydnerth. Mae'n bwysig bod gan gynhyrchwyr a phroseswyr berthynas ryngweithiol lle mae rhannu gwybodaeth a data o fudd i'r busnesau unigol a hefyd i'r diwydiant ehangach.

Rwy'n ymwybodol bod yna awydd i gyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru, gan fod ein rhanddeiliaid allweddol wedi cyflwyno dadl i Lywodraeth Cymru dros ymgynghori'n ffurfiol ar y mater hwn.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad diweddar yn yr Alban ac argymhellion adolygiad diweddar Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd wedi ychwanegu at y sail dystiolaeth ac wedi dylanwadu ymhellach ar fy mhenderfyniad i gynnal ymgynghoriad ffurfiol yma yng Nghymru. Mae'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd yn gymhleth a bydd angen gwneud nifer o newidiadau deddfwriaethol, yn enwedig ar gyfer amaeth. Rwyf eisiau bod yn glir ynghylch sut y bydd cyflwyno'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n diwydiant ac na fyddant yn faich rheoleiddiol ychwanegol ar y gadwyn gyflenwi.

Trwy'r ymgynghoriad hwn, rwyf eisiau clywed gan y gadwyn gyflenwi gyfan yn nhermau a ddylid rhoi trefn dosbarthu carcasau defaid ar waith yma yng Nghymru ar sail orfodol trwy ddiwygiadau i'r deddfwriaeth bresennol.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	6
Acronymau.....	6
2. Diben yr ymgynghoriad	7
Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio?	7
Amseriad yr ymgynghoriad hwn.....	7
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	7
Ar ôl yr ymgynghoriad	8
3. Cynigion yr Ymgynghoriad	9
Trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid – â beth mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin?	9
Ble ydym ni yn awr?.....	9
Diwygiadau a gynigir.....	10
4. Effaith yr ymgynghoriad	14
5. Atodiadau	15
Atodiad A – System dosbarthu SEUROP	15
Atodiad B – Manylion gofynion gorfodol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dosbarthu carcasau defaid	17
Atodiad C – Trothwyau ac effaith dosbarthu carcasau defaid	19
Atodiad D – Manylion cyfreithiol y cynllun dosbarthu carcasau defaid.....	20
Dogfen 1 – Templed Ymateb i'r Ymgynghoriad.....	23

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae dosbarthu carcasau a hysbysu gorfodol yn fater datganoledig a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar y polisi yng Nghymru.
- 1.2 Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1249/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar roi ar waith raddfeydd y Gymuned ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid a hysbysu eu prisiau. O fewn y rheoliad hwn mae hysbysu am eidion a moch yn orfodol; fodd bynnag, mae dewis gan aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i osod trefn hysbysu am ddefaid ar sail wirfoddol.
- 1.3 Mae gan Gymru ei deddfwriaeth ei hun sy'n rheoli trefn hysbysu orfodol ar gyfer eidion a moch, sef *Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011*. Yn y ddeddfwriaeth hon gall lladd-dai hysbysu ar garcasau defaid ar sail wirfoddol.
- 1.4 Ym mis Hydref 2016, cyhoeddwyd 'Galwad am Dystiolaeth' i'r Deyrnas Unedig gyfan ar gylch gwaith Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd. Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn am farn a gwybodaeth am unrhyw arferion masnachu annheg sy'n effeithio ar y gadwyn gyflenwi bwydydd, yr angen am ragor o gamau gweithredu a'r ffurf a allai fod ar gamau gweithredu o'r fath. Caeodd yr alwad am dystiolaeth ym mis Ionawr 2017 ac yn y gwerthusiad, mae argymhelliad i gyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid ledled y Deyrnas Unedig.
- 1.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn yr Alban eisoes.
- 1.6 Caiff yr ymgynghoriad yn Lloegr ei gynnal yn gyfochrog â'r ymgynghoriad hwn.
- 1.7 Mae'r papur ymgynghori hwn yn esbonio polisi Llywodraeth Cymru ymhellach ac yn nodi cynigion ar gyfer trefniadau i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi. Rydym hefyd yn gofyn am sylwadau ar y cynigion hyn.
- 1.8 Mae cysondeb hysbysu a thryloywder yn y gadwyn gyflenwi'n hanfodol er mwyn cynyddu gwybodaeth cynhyrchwyr a hyder y sector prosesu. Mae'r trefniadau i sicrhau hyn yn cael eu trafod yn y papur ymgynghori hwn.

Acronymau

HCC – Hybu Cig Cymru

2. Diben yr ymgynghoriad

2.1 Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ar gyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru a chreu darlun o'r dull dosbarthu a hysbysu a ddylai gael ei fabwysiadu.

2.2 Bydd hefyd yn gofyn am farn ar amserlenni cyhoeddi, cyfleu canlyniadau dosbarthu i'r cwsmer a hysbysu data ar draws y dosbarthiadau carcasau ar gyfer pob math o dda byw.

Ar bwy fydd y cynnig i gyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yn effeithio?

2.3 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfeirio at unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu a phrosesu carcasau defaid; wedi'i anelu'n bennaf at unrhyw un sydd â diddordeb yn rheoleiddio'r sector defaid. Bydd o ddiddordeb arbennig ichi os ydych;

- yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, gwerthu neu brosesu defaid;
- yn cymryd rhan mewn gweithgareddau er budd y diwydiant defaid; neu
- yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dosbarthu carcasau ar gyfer pob math o dda byw (y mae dosbarthu carcasau eidion a moch eisoes yn orfodol).

Amseriad yr ymgynghoriad

2.4 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn am 12 wythnos o 31/05/2018 ymlaen a bydd yn cau ar 23/08/2018. Ni fyddwn yn ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

2.5 Rydym wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant ac wedi rhoi gwybod iddynt am ddiben ac amserlen yr ymgynghoriad hwn.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

2.6 Dylech ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r templed ffurfiol a ddarperir yn Nogfen 1.

Gallwch anfon y dogfennau wedi'u cwblhau trwy e-bost at:

Neu'n ysgrifenedig at:

Llywodraeth Cymru
Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3 NQ

Ar ôl yr ymgynghoriad

2.7 Ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben, bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi a'u gosod ar wefan Llywodraeth Cymru ar:

<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

2.8 Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r enwau a'r sefydliadau a ymatebodd ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu'n unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

2.9 Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth, gan gynnwys data personol, yr ydych wedi'i rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech ddweud hynny'n glir yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad a nodi'r rheswm pam y mae angen ichi gadw'r manylion hyn yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn rhoi sylw llawn i'ch esboniad. Fodd bynnag, ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig wedi'i gynhyrchu gan eich system TG, ohono ei hun, yn cael ei ystyried yn gais am gyfrinachedd.

2.10 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r 'Egwyddorion Ymgynghori' fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Gweithrediaeth Gwell Rheoleiddio y gellir eu gweld ar <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance> ac yn gyson â'r 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd' y gellir eu gweld ar <https://participation.cymru/cy/egwyddorion/>

3. Cynnig

Trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid – â beth mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin?

- 3.1 Mae Rheoliadau Ewropeaidd (Rheoliad Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd 1308/2013, Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184) yn darparu rheol wirfoddol sy'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau gymhwyso graddfa Undeb at ddsbarthu carcasau defaid. Lle bo Aelod-wladwriaeth yn dewis cymhwyso trefn dosbarthu carcasau defaid, rhaid iddi ddilyn y rheolau dosbarthu perthnasol a osodir yn y Rheoliadau hynny. O ganlyniad, rhaid i unrhyw gynllun dosbarthu gorfodol a gyflwynir gan awdurdod cymwys perthnasol yn y Deyrnas Unedig, tra bôm yn ddarostyngedig o hyd i reolau'r Undeb Ewropeaidd, gydymffurfio â'r system grid dosbarthu Ewropeaidd SEUROP.
- 3.2 Mae hyn yn golygu nad yw dosbarthu carcasau defaid o dan y Rheoliad Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yn orfodol ar hyn o bryd. Cynnig yr ymgynghoriad hwn yw gwneud y drefn dosbarthu yn orfodol trwy ddiwygiad i Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 sy'n bodoli eisoes.
- 3.3 Er mwyn aros yn gyson â'r systemau dosbarthu presennol a ddefnyddir gan ladd-dai yng Nghymru, rydym yn dymuno cael barn ar wneud y system grid Ewropeaidd yn orfodol. Gellir gweld mwy o wybodaeth am fanylion grid SEUROP yn Atodiad A.¹

Ble ydym ni yn awr?

- 3.4 Rydym wedi bod yn trafod gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn Lloegr ynghylch lansio ymgynghoriad cyfochrog. O gofio bod Adolygiad Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd yn ymgynghoriad ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, penderfynwyd cynnal ymgynghoriad cydamserol. Mae cynigion wedi cael eu datblygu ynghylch sut y gellid gweithredu trefn dosbarthu orfodol yng Nghymru; i ddod â'r gofynion i rym byddai angen diwygiad i is-ddeddfwriaeth Cymru. Os mai canlyniad yr ymgynghoriad yw i'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio, mae hyn yn debygol o gael ei wneud yn gynnar yn 2019.
- 3.5 Ystyriodd yr asesiadau effaith angenrheidiol yr effeithiau posibl ar fusnesau yng Nghymru. Awgrymodd y dystiolaeth na fyddai'r newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar unrhyw ladd-dai ychwanegol yng Nghymru oherwydd y trothwy trwybwn a gynigir. Mae pedwar lladd-dy yng Nghymru'n gyfrifol am fwy na 90% o'r trwybwn defaid, ac mae dau ohonynt eisoes yn hysbysu mewn modd safonol.

Rheoliad 1308/2013: <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1522932628696&uri=CELEX:32013R1308>

Rheoliad 2017/1182: http://eur-lex.europa.eu/eli/reg_del/2017/1182/oj

Rheoliad 2017/1184: <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1524750620461&uri=CELEX:32017R1184>

¹Mae Atodiad A yn rhoi mwy o wybodaeth am system dosbarthu carcasau'r Undeb Ewropeaidd, SEUROP.

Ymchwil i'r cynigion

3.6 Mae dosbarthu carcasau wedi bod yn orfodol mewn lladd-dai ar raddfa fasnachol yn y sectorau eidion a moch ers blynyddoedd lawer.

C1) Ydych chi o blaid trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru?

- I. Ydw*
- II. Nac ydw*
- III. Sylwadau*

C2) Os ydych chi'n brosesydd, ydych chi'n defnyddio system dosbarthu carcasau defaid ar hyn o bryd?

- I. Ydw, SEUROP.*
- II. Ydw, system arall (rhowch fanylion o dan "sylwadau")*
- III. Nac ydw*
- IV. Sylwadau*

Trothwyau Trwybwn

3.7 Mae ymchwil wedi cael ei gwneud i edrych ar y mangreoedd sydd â thrwybwn defaid sylweddol bob wythnos ar hyn o bryd. Yn 2017, roedd 22 lladd-dy wedi'u cofrestru i ladd defaid. O'r rhain, mae 4 lladd-dy yn gyfrifol am fwy na 90% o'r holl drwybynnau. Rydym yn cynnig esemptiad i drefn orfodol dosbarthu a hysbysu prisiau i ladd-dai sy'n lladd llai na 1,000 o ddefaid bob wythnos ar gyfartaledd blynyddol. O dan y system hon, rhagwelwn y byddai trefn orfodol dosbarthu a hysbysu prisiau yn cynnwys bron 90% o'r trwybwn blynyddol yng Nghymru. Rhoddir mwy o wybodaeth yn Atodiad C.

C3) Rydym yn cynnig esemptiad i ladd-dai sydd â thrwybwn o lai na 1,000 o ddefaid bob wythnos ar gyfartaledd blynyddol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y trothwy hwn?

- I. Sylwadau*

Trwyddedu ac Asesu

3.8 Rydym yn cynnig y byddai gwaith dosbarthu carcasau'n cael ei wneud gan ddosbarthwyr cymwysedig sydd wedi cael trwydded ar gyfer dosbarthu carcasau â llaw. Byddai'n ofynnol i ddosbarthwyr gael asesiad cyn bod yn gymwys i gael trwydded. Cynigir y bydd y gwaith o drwyddedu a phrofi'r dosbarthwr yn cael ei wneud gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer dosbarthu carcasau eidion.

3.9 Bydd y gofyniad trwyddedu ac asesu'n berthnasol i'r holl dechnegau graddio awdurdodedig, gan gynnwys rhai awtomatig, lled-awtomatig ac â llaw. Mae'n bosibl y caiff amodau eu gosod ar unrhyw drwyddedau a ganiateir, fel yn achos trwyddedau dosbarthwr carcasau eidion. Lle bo trwydded wedi'i chaniatáu, bwriedir y bydd y canlynol yn berthnasol:

- Gellir amrywio trwydded neu unrhyw amod;
- Gellir dirymu trwydded lle bo nifer sylweddol o ddsbarthiadau, cyflwyniadau neu adnabyddiadau anghywir yn digwydd;
- Gellir atal trwydded dros dro neu ei dirymu os yw'r person wedi torri telerau neu amodau'r drwydded neu le nad yw'n briodol mwyach i ddeiliad y drwydded gyflawni ddsbarthiadau;
- Gellir atal trwydded dros dro neu ei dirymu os nad yw unrhyw offer graddio awtomatig a gymeradwyir yn y dyfodol yn cyrraedd y safonau gofynnol mwyach, boed oherwydd yr offer neu oherwydd defnydd y gweithredwr o'r offer.

Noder mai'r un rheolau yw'r rhain â'r rhai sy'n berthnasol i'r trwyddedau ddsbarthwyr carcasau eidion ar hyn o bryd.

Gorfodi

3.10 Mae'r canllawiau hyn wedi'u seilio ar y drefn gorfodi yn Rheoliadau Ddsbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011; o dan y Rheoliadau mae torri rhai darpariaethau penodol yn dramgwyddau. Cynigir, yn yr un modd ar gyfer ddsbarthu carcasau defaid, y bydd peidio â chydymffurfio â rhai o ofynion penodol y system ddsbarthu yn dramgwyddau.

Mae'n debygol y bydd y tramgwyddau arfaethedig yn debyg waeth beth fo natur y system ddsbarthu a ddewisir, er ei bod yn bosibl y bydd rhai tramgwyddau ychwanegol o dan system wedi'i theilwra yn y dyfodol i gael ei phennu gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

Tramgwyddau o ran cydymffurfiaeth

3.11 Bydd y tramgwyddau arfaethedig yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â'r gofynion o ran:

- Cyflwyniadau;
- Ddsbarthiadau (cydffurfiad a gorchudd braster);
- Pwyso;
- Adnabod carcasau (marciau a labelu);
- Cadw cofnodion; a
- Caniatáu mynediad (dim rhwystro).

Mae'n bosibl y bydd tramgwyddau ychwanegol yn cael eu datblygu os caiff system wedi'i theilwra ei datblygu.

Y gosb arfaethedig am dramgwyddau o'r fath o'u collfarnu'n ddiannod yw dirwy ddiderfyn nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol am dramgwydd marciau camarweiniol.

Tramgwyddau o ran hysbysiadau a thrwyddedau

3.12 Yn unol â'r rheoliadau ar ddsbarthu carcasau eidion a moch, cynigir, lle mae'n ofynnol i ladd-dy a ddefnyddir i ladd defaid hysbysu manylion cofrestru neu wybodaeth am brisiau i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig, y bydd peidio â chydymffurfio â'r naill neu'r llall o'r gofynion hyn yn dramgwydd. Cynigir hefyd y bydd tramgwyddau a chosbau unol â'r rhai sy'n berthnasol i drwyddedau ar gyfer ddsbarthu carcasau

eidion yn berthnasol i ddosbarthu carcasau defaid. Mae'r rheoliadau ar ddosbarthu carcasau eidion yn darparu:

- Os ymgwymerir â dosbarthu mewn lladd-dy cymeradwy (â llaw neu drwy ddefnyddio offer graddio awtomatig), heb drwydded a ganiatawyd, neu gan dorri unrhyw un o delerau neu amodau trwydded o'r fath, bod y person sy'n ymgymryd â'r dosbarthu a gweithredwr y lladd-dy hwnnw ill dau'n euog o dramgwydd.
- Bod unrhyw berson sy'n gwneud newid mewn trwydded a ganiatawyd yn euog o dramgwydd.

3.13 Y gosb am dramgwyddau o'r fath o'u collfarnu'n ddiannod yw dirwy ddiderfyn yn ogystal â dirymu trwyddedau unigolion.

3.14 Fel yn achos y ddeddfwriaeth ar ddosbarthu carcasau eidion, bydd archwiliadau heb eu cyhoeddi ymlaen llaw, yn digwydd yn rheolaidd neu ar sail risg a bydd y pwerau mynediad fel y maent ar hyn o bryd.

Pwerau mynediad

3.15 Cynigir y bydd y pwerau mynediad sy'n berthnasol i ddosbarthu carcasau eidion a moch hefyd yn berthnasol i ddosbarthu carcasau defaid. Mae hyn yn golygu y caiff swyddog awdurdodedig, ar unrhyw adeg resymol, fynd i mewn i ladd-dy cymeradwy ac unrhyw fangre gysylltiedig, lle y gall fod carcasau'n cael eu trin, neu gofnodion mewn perthynas â'r carcasau hynny'n cael eu cadw, at y diben o ganfod:

- a oes tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn cael, neu wedi cael ei gyflawni yn y fangre; neu
- a oes unrhyw dystiolaeth yn y fangre, o unrhyw dramgwydd o'r fath.

3.16 Caiff y swyddog fynd â phersonau eraill, gan gynnwys unrhyw gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd neu Lywodraeth Cymru (pa un bynnag sy'n fwyaf berthnasol yn ôl natur y system dosbarthu a weithredir). Os oes sail resymol, neu alw am weithredu ar frys, mae'n bosibl y caiff gwarant ei hawdurdodi yn caniatáu i swyddog fynd i mewn i'r fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol pe bai angen.

3.17 Cynigir y caiff y 'Pwerau Mynediad' eu harfer gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig fel yn achos trefn bresennol dosbarthu carcasau eidion.

Archwiliadau

3.18 Cynigir y caiff archwiliadau eu cyflawni gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, heb eu cyhoeddi ymlaen llaw, yn rheolaidd neu ar sail risg ar amllder amrywiol ac yn berthynol i faint o garcasau defaid a gynhyrchir. Y bwriad yw y bydd pwerau swyddogion awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangreoedd mewn perthynas â dosbarthu carcasau eidion a moch hefyd yn berthnasol mewn perthynas â dosbarthu carcasau defaid. Mae'r rhain yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig yr Asiantaeth Taliadau Gwledig:

- Archwilio carcasau yn y fangre;
- Archwilio unrhyw gofnodion mae'n ofynnol i'r gweithredwr eu cadw;

- Gwneud yn ofynnol cyflwyno copïau neu ddyfyniadau o gofnodion;
- Dal gafael mewn cofnodion y mae'r swyddog yn credu y gall fod eu hangen fel tystiolaeth.

Cyfleu canlyniadau dosbarthu i'r cwsmer

3.19 Mae rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant wedi mynd at Lywodraeth Cymru a gofyn am ymrwymiad i ymchwilio, gyda'r diwydiant, ar sut y gellir gwella'r ffodd y caiff data'r farchnad eu casglu a'u dosbarthu yn y tymor hir er mwyn sicrhau mwy o dryloywder. Mae'r diwydiant yn credu y gall mwy o dryloywder arwain at wella cynhyrchiant.

3.20 Felly, cynigir y dylai lladd-dai ar raddfa fasnachol sy'n cyflawni gwaith dosbarthu carcasau hysbysu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r dosbarthu yn brydlon. Bydd y wybodaeth hon yn helpu ffermwyr i ddeall yn well werth eu systemau cynhyrchu, ac felly yn eu helpu i wella cynhyrchiant.

Dylid hysbysu'r wybodaeth hon i'r cyflenwr mewn fformat hawdd ei ddefnyddio a'i ddeall.

3.21 Croesewir adborth ar sut y byddai system o'r fath yn gweithredu.

C4) Pa wybodaeth ddylai lladd-dai ei hysbysu i'w cyflenwyr mewn perthynas â dosbarthu carcasau ac yn unol â pha amserlen?

I. Sylwadau

Hysbysu prisiau

3.22 Mae meddu ar wybodaeth dda, gyfredol am brisiau o fudd i'r sector wrth ei helpu i gynllunio a gwella. Cynigir y dylai lladd-dai hysbysu prisiau bob wythnos i Hybu Cig Cymru (HCC) mewn fformat cymeradwy, iddi gael ei chyhoeddi wedyn mewn fformat cyfanredol sy'n diogelu cyfrinachedd masnachol. Cynigir y bydd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn monitro'r gwaith hysbysu prisiau fel mae'n gwneud ar hyn o bryd ar gyfer dosbarthu carcasau eidion.

3.23 Croesewir adborth ar sut y byddai system o'r fath yn gweithredu.

C5) Pa wybodaeth ddylai HCC ei chyhoeddi?

I. Sylwadau

Cyhoeddi rhestr o ffioedd a phrisiau

3.24 Er mwyn gwella tegwch yn y gadwyn gyflenwi, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ei gwneud yn ofynnol i ladd-dai ar raddfa fasnachol gyhoeddi eu rhestr ffioedd am wasanaethau sy'n gysylltiedig â lladd da byw (eidion, moch a defaid) e.e. cost glanhau anifeiliaid, ffioedd dosbarthu ac yswiriant.

3.25 At hynny, rhaid i bob lladd-dy roi i gwsmeriaid ddadansoddiad o'r pris a delir am bob anifail, gan gynnwys y ffioedd a didynnwyd, ar gais.

3.26 Croesewir adborth ar sut y byddai system o'r fath yn gweithredu.

C6) Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig ynghylch cyhoeddi rhestr o ffioedd a phrisiau?

- I. Ydw
- II. Nac ydw
- III. Pa elfennau ddylai gael eu cynnwys?
- IV. Sylwadau

C7) Pa effaith, yn nhermau costau gweinyddu a chostau eraill, ydych chi'n disgwyl y byddai'r rheoliad hwn yn ei chael ar eich busnes? Rhowch resymau a thystiolaeth lle bo modd am eich ateb.

- I. Sylwadau

4. Effeithiau'r ymgynghoriad

Bydd trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth trwy'r gadwyn gyflenwi. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at drafodion tecach a mwy economaidd effeithlon.

Er mwyn cyflawni'r buddion hyn, mae'n bosibl y bydd y rheoliad yn cyflwyno rhai costau o ran gwaith gweinyddu ac adnoddau ar fusnesau lladd-dai y bydd effaith arnynt, y bydd yn ofynnol iddynt gyflawni gwaith dosbarthu, a chofnodi a hysbysu canlyniadau a phrisiau. Rhagwelwn y bydd y prif gostau i'r lladd-dai y bydd effaith arnynt yn codi yn nhermau hyfforddiant i'r staff a chostau amser cyfyngedig o archwiliadau gorfodol.

Fel rhan o'r broses datblygu polisi, mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd gyda Defra, wedi cynnal asesiad cychwynnol o'r effeithiau hyn, sy'n awgrymu bod y costau ychwanegol yn debygol o fod yn fach.

Y ffactorau arwyddocaol sy'n cyfrannu at yr asesiad hwn yw cynnwys yr esemptiad trwybwn, fel bod yr effaith ar ladd-dai sy'n prosesu mwy na 1,000 o ddefaid bob wythnos (fel cyfartaledd blynyddol) yn unig; a'r dystiolaeth gychwynnol bod gan o leiaf y mwyafrif o'r lladd-dai y bydd effaith arnynt systemau, neu systemau y gellid eu haddasu'n rhwydd, ar hyn o bryd i'w galluogi i fodloni'r rheoliad dosbarthu.

Atodiad A - system dosbarthu SEUROP

Mae sail dosbarthu (S)EUROP fel y'i nodir isod.

Mae graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau defaid fel a ganlyn:

Dosbarthiadau cydffurfiad - (S), E, U, R, O a P

Dosbarthiadau braster - 1, 2, 3, 4 a 5 (is-ddosbarthiadau L a H ar ddosbarthiadau braster 3 a 4)

Gellir defnyddio graddfa 15 pwynt os dymunir

Diffiniadau “carcas” a “hanner carcas”:

- Ystyr "carcas" yw holl gorff yr anifail wedi'i ladd fel y'i cyflwynir ar ôl gwaedu, diberfeddu a thynnu'r croen;
- Ystyr "hanner carcas" yw'r cynnyrch a geir drwy wahanu'r carcas yn gymesur drwy ganol pob fertebra gyddfol, dorsal, meingefnol a sacrol, a thrwy ganol y sternwm a'r symffysis isgiopwbig.

Categoriâu

Rhaid i'r carcasau gael eu rhannu i'r categorïau canlynol (sydd cynnwys defaid o bob math):

- a. Carcasau defaid o dan 12 mis oed
- b. Carcasau defaid eraill

Dylid rhoi gwybod am ganlyniadau'r dosbarthu ar gyfer defaid o bob math.

Hysbysu prisiau

Cofnodir prisiau'r farchnad ar gyfer defaid o dan 12 mis oed. Cânt eu rhannu i gategoriâu pwysau:

- a. Carcasau ŵyn ysgafn sy'n pwyso llai na 13kg pwysau carcas
- b. Carcasau ŵyn trwm sy'n pwyso 13kg pwysau carcas neu fwy.

Dosbarthu

Rhaid i garcasau gael eu dosbarthu trwy asesu olynol, yn y drefn isod:

Cyddfurfiad, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- Datblygiad proffiliau carcasau, yn benodol y rhannau hanfodol (pedrain, cefn, ysgwydd)

Dosbarth a disgrifiad y cydffurfiad

S Arbennig iawn (Superior) - Pob proffil yn eithriadol o amgrwm; datblygiad cyhyrau eithriadol (math o garcas cyhyrau dwbl).

E Ardderchog (Excellent) - Pob proffil yn amgrwm i uwch-amgrwm; datblygiad cyhyrau eithriadol.

U Da iawn (Very good) - Proffiliau ar y cyfan yn amgrwm; datblygiad cyhyrau da iawn.

R Da (Good) - Proffiliau ar y cyfan yn syth; datblygiad cyhyrau da.

O Gweddol (Fair) - Proffiliau yn syth i geugrwm; datblygiad cyhyrau cyfartalog.

P Gwael (Poor) - Pob proffil yn geugrwm i geugrwm iawn; datblygiad cyhyrau gwael.

Gorchudd braster

1 isel (low) - Dim gorchudd braster i orchudd braster isel.

2 ychydig (slight) - Ychydig o orchudd braster, cnawd i'w weld ym mhob man bron.

3 cyfartalog (average) - Y cnawd, ac eithrio'r bedrain a'r ysgwydd, wedi'i orchuddio â braster ym mhob man bron, ychydig o ddyddodion braster yn y ceudod thorasig.

4 uchel (high) - Y cnawd wedi'i orchuddio â braster, ond ar y bedrain a'r ysgwydd yn dal yn rhannol weladwy, rhai dyddodion braster amlwg yn y ceudod thorasig.

5 uchel iawn (very high) - Y carcass cyfan wedi'i orchuddio â braster; dyddodion trwm yn y ceudod thorasig.

Cyflwyniad yr Undeb Ewropeaidd

Rhaid i garcasau a hanner carcassau gael eu cyflwyno heb y pen (wedi'i dorri wrth y cymal atlantoocsipitol), y traed (wedi'u torri wrth y cymalau carpometacarpol neu darso-metatarsol), y cynffon (wedi'i dorri rhwng y chweched a'r seithfed fertebra cynffonol), heb y gadair/braster y ceillgwd, y genitalia, yr iau/afu a'r syrth. Caiff yr arenau a braster yr arenau eu cynnwys yn y carcass.

Pwyso

Rhaid i'r anifail gael ei bwyso'n unol â'r fanyleb uchod i'r 100g agosaf. Dylid hysbysu'r pris pwysau oer a fydd yn cyfateb i bwysau cynnes y carcass wedi'i gywiro i gymryd i ystyriaeth y pwysau a gollir ar ôl oeri. Dyma'r pwysau y dylid ei dalu i'r cyflenwr.

Sicrhau y gellir adnabod carcassau

Rhaid sicrhau y gellir adnabod carcassau a hanner carcassau trwy eu marcio neu eu labelu.

Atodiad B - Manylion gofynion gorfodol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dosbarthu carcasau defaid

Noder y bydd system dosbarthu carcasau defaid yr Undeb Ewropeaidd yn newid, ac felly disgrifiad yw hwn o'r system a fydd yn bodoli o fis Gorffennaf 2018. Gan ein bod yn ystyried y posibilrwydd o wneud y system hon yn orfodol tua dechrau 2019, dyma'r gofynion a fyddai ar waith, pe baem yn gwneud hynny.

Gofyniad system yr Undeb Ewropeaidd	Gofynion gweithredu a fyddai'n berthnasol (a chyrrff cyflawni tebygol)
Pob dosbarthwr carcasau defaid i gael ei drwyddedu gan yr awdurdod cymwys; hefyd rhaid bod proses gan yr awdurdod cymwys i dynnu'r drwydded yn ôl ac ar gyfer apeliadau.	Yn cael ei gyflawni gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig ar gyfer carcasau eidion ar hyn o bryd; caiff cyfrifoldebau'r Asiantaeth eu hymestyn i gynnwys trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid.
Rhaid i ladd-dai sicrhau y caiff carcasau defaid eu cyflwyno i gael eu dosbarthu yn unol â'r gofynion manwl ar gyfer cyflwyno a nodir yn y Rheoliad (gan gadw at y manylebau trin, tynnu offal ac ati).	Cyfrifoldeb y lladd-dy, yn cael ei wirio gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig trwy wiriadau yn y fan a'r lle.
Rhaid i'r gwaith dosbarthu o ran braster a chydffurfiad gael ei wneud ac i'r anifail gael ei raddio yn unol â'r grid (S)EUROP.	Cyfrifoldeb y dosbarthwr, yn cael ei wirio gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig trwy wiriadau yn y fan a'r lle.
Rhaid i bris y farchnad a gofnodir fod y pris a delir i'r cyflenwr, heb TAW ac wedi'i fynegi am bob 100kg o bwysau carcas. Rhaid iddo fod y pwysau oer a, lle bo angen, dylid cymhwyso'r ffactorau cywiro penodedig er mwyn cyfrifo'r pris.	Cyfrifoldeb y lladd-dy
Rhaid i wiriadau yn y fan a'r lle gael eu cyflawni gan barti annibynnol (neu'r awdurdod cymwys) er mwyn gwirio bod y gwaith dosbarthu'n cael ei gyflawni'n gywir. Mae trothwy trwybwn isaf ar gyfer y gwiriadau hyn ac ar gyfer defaid mae'n ofynnol iddynt gael eu cyflawni mewn lladd-dai lle mae 1,000 o ddefaid neu fwy yn cael eu lladd bob wythnos (ar sail cyfartaledd blynyddol).	Yn cael eu cyflawni gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig
Peiriannau dadansoddi delweddau fideo (VIA) - lle defnyddir y rhain rhaid iddynt gael eu hawdurdodi gan yr awdurdod cymwys yn dilyn prawf awdurdodi.	Cyfrifoldeb y lladd-dy, yn cael ei wirio gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn ystod y gwaith profi a gosod a gwiriadau parhaus. Nid oes unrhyw beiriant dadansoddi delweddau fideo ar gyfer defaid wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig. Byddai angen i unrhyw beiriant gael ei ardstio gan y Comisiwn yn y lle cyntaf yn ystod y cyfnod y bydd y Deyrnas Unedig yn dal i fod yn ddarostyngedig i reolau'r Undeb Ewropeaidd cyn y gellid ei fabwysiadu i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Gofyniad system yr Undeb Ewropeaidd	Gofynion gweithredu a fyddai'n berthnasol (a chyrrff cyflawni tebygol)
Yn ystod y cyfnod y bydd y Deyrnas Unedig yn dal i fod yn ddarostyngedig i reolau'r Undeb Ewropeaidd, pe bai Pwyllgor Archwilio Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd yn dymuno gwirio bod gwaith dosbarthu'n cael ei gyflawni'n briodol, rhaid i'r Aelod-wladwriaeth ddarparu mynediad i hwyluso hyn.	Cyfrifoldeb y lladd-dy i ganiatáu mynediad a chyfrifoldeb yr awdurdod cymwys.
Dosbarthu a hysbysu prisiau - rhaid i ganlyniadau'r gwaith dosbarthu a'r prisiau gael eu hysbysu gan y lladd-dai yn ddarostyngedig i wiriadau yn y fan a'r lle gan yr awdurdod cymwys canolog.	Cyfrifoldeb y lladd-dy yw hysbysu canlyniadau'r gwaith dosbarthu a'r prisiau, yn cael eu gwirio gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.
Rhaid i'r awdurdod cymwys ddarparu i'r Comisiwn restr o'r lladd-dai sy'n ddarostyngedig i'r gofynion o ran hysbysu prisiau.	Cyfrifoldeb yr awdurdod cymwys.
Rhaid i'r awdurdod cymwys canolog hysbysu'r prisiau cynrychiadol i'r Comisiwn erbyn canol dydd (amser Brwsel) bob dydd Mercher.	Cyfrifoldeb y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, yn cael ei fonitro gan Asiantaeth Taliadau Gwledig.

Atodiad C - Trothwyau ac effaith dosbarthu carcasau defaid

Mae hyn wedi'i seilio ar ffigurau 2016 a hysbyswyd i HCC

Trothwy trwybwn bob wythnos ar gyfartaledd	Nifer o ladd-dai	% o drwybwn Cymru bob blwyddyn
<500	14	2.8%
501-1,000	1	1.0%
1,001-5,000	0	0.0%
>5,001	4	96.2%

Atodiad D - Manylion cyfreithiol y cynllun dosbarthu carcasau defaid

Ein nod yw adlewyrchu'r cynllun dosbarthu carcasau eidion lle bynnag y bo modd.

Trwyddedu ac Aseu

Rydym yn cynnig y byddai gwaith dosbarthu carcasau'n cael ei wneud gan ddosbarthwyr cymwysedig sydd wedi cael trwydded ar gyfer dosbarthu carcasau â llaw. Byddai'n ofynnol i ddosbarthwyr gael aseiad cyn bod yn gymwys i gael trwydded. Bydd y gwaith o brofi, trwyddedu a gwirio medrusrwydd parhaus y dosbarthwr yn cael ei wneud gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

Bydd y gofyniad trwyddedu ac aseu'n berthnasol i'r holl dechnegau graddio awdurdodedig, gan gynnwys rhai awtomatig, lled-awtomatig ac â llaw. Mae'n bosibl y caiff amodau eu gosod ar unrhyw drwyddedau a ganiateir, fel yn achos trwyddedau dosbarthwyr carcasau eidion. Lle bo trwydded wedi'i chaniatáu, bwriedir y bydd y canlynol yn berthnasol:

- Gellir amrywio trwydded neu unrhyw amod;
- Gellir dirymu trwydded lle bo nifer sylweddol o dosbarthiadau, cyflwyniadau neu adnabyddiadau anghywir yn digwydd;
- Gellir atal trwydded dros dro neu ei dirymu os yw'r person wedi torri telerau neu amodau'r drwydded neu le nad yw'n briodol mwyach i ddeiliad y drwydded gyflawni dosbarthiadau;
- Gellir atal trwydded dros dro neu ei dirymu os nad yw unrhyw offer graddio awtomatig a gymeradwyir yn y dyfodol yn cyrraedd y safonau gofynnol mwyach, boed oherwydd yr offer neu oherwydd defnydd y gweithredwr o'r offer.

Noder mai'r un rheolau yw'r rhain â'r rhai sy'n berthnasol i'r trwyddedau dosbarthwyr carcasau eidion ar hyn o bryd.

Gorfodi

Mae'r canllawiau hyn wedi'u seilio ar y drefn gorfodi yn Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch²; o dan y rhain mae torri rhai darpariaethau penodol yn dramgwyddau.

Cynigir, yn yr un modd ar gyfer trefn dosbarthu carcasau defaid, y bydd peidio â chydymffurfio â rhai o ofynion penodol y system dosbarthu yn dramgwyddau.

Mae'n debygol y bydd y tramgwyddau arfaethedig yn debyg waeth beth fo natur y system dosbarthau a ddewisir, er ei bod yn bosibl y bydd rhai gwahaniaethau o dan system wedi'i theilwra yn y dyfodol.

Tramgwyddau o ran cydymffurfiaeth

Bydd y tramgwyddau arfaethedig yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â'r gofynion o ran:

- Cyflwyniadau;
- Dosbarthiadau (cydffurfiad a gorchudd braster);
- Pwyso;
- Adnabod carcasau (marciau a labelu);
- Cadw cofnodion; a
- Caniatáu mynediad (dim rhwystro).

Mae'n bosibl y bydd tramgwyddau ychwanegol yn cael eu datblygu os caiff system wedi'i theilwra ei datblygu.

² The Beef and Pig Carcase Classification (England) Regulations 2010 (noder bod y rhain yn cael eu diweddarau i gymryd i ystyriaeth rheoliadau newydd yr Undeb Ewropeaidd (2017/1182 a 2017/1184): <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2010/1090/contents/made>

Y gosb arfaethedig am dramgwyddau o'r fath o'u collfarnu'n ddiannod yw dirwy ddiderfyn nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol am dramgwydd marciau camarweiniol.

Hysbysiadau a thrangwyddau o ran trwyddedau

Yn unol â'r rheoliadau ar ddsbarthu carcasau eidion a moch, cynigir, lle mae'n ofynnol i ladd-dy a ddefnyddir i ladd defaid hysbysu manylion cofrestru neu wybodaeth am brisiau i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig, y bydd peidio â chydymffurfio â'r naill neu'r llall o'r gofynion hyn yn dramgwydd.

Cynigir hefyd y bydd tramgwyddau a chosbau unol â'r rhai sy'n berthnasol i drwyddedau ar gyfer ddsbarthu carcasau eidion yn berthnasol i ddsbarthu carcasau defaid. Mae'r rheoliadau ar ddsbarthu carcasau eidion yn darparu:

- Os ymgwymerir â ddsbarthu mewn lladd-dy cymeradwy (â llaw neu drwy ddefnyddio offer graddio awtomatig), heb drwydded a ganiatawyd, neu gan dorri unrhyw un o delerau neu amodau trwydded o'r fath, bod y person sy'n ymgymryd â'r ddsbarthu a gweithredwr y lladd-dy hwnnw ill dau'n euog o dramgwydd.
- Bod unrhyw berson sy'n gwneud newid mewn trwydded a ganiatawyd yn euog o dramgwydd.
- Y gosb am dramgwyddau o'r fath o'u collfarnu'n ddiannod yw dirwy ddiderfyn yn ogystal â dirymu trwyddedau unigolion.

Fel yn achos y ddeddfwriaeth ar ddsbarthu carcasau eidion, bydd archwiliadau heb eu cyhoeddi ymlaen llaw, yn digwydd yn rheolaidd neu ar sail risg, a bydd y pwerau mynediad fel y maent ar hyn o bryd.

Pwerau mynediad

Cynigir y bydd y pwerau mynediad sy'n berthnasol i ddsbarthu carcasau eidion a moch hefyd yn berthnasol i ddsbarthu carcasau defaid.

Mae'r rhain yn darparu y caiff swyddog awdurdodedig, ar unrhyw adeg resymol, fynd i mewn i ladd-dy cymeradwy ac unrhyw fangre gysylltiedig, lle y gall fod carcasau'n cael eu trin, neu gofnodion mewn perthynas â'r carcasau hynny'n cael eu cadw, at y diben o ganfod:

- a oes tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn cael, neu wedi cael ei gyflawni yn y fangre; neu
- a oes unrhyw dystiolaeth yn y fangre, o unrhyw dramgwydd o'r fath.

Caiff y swyddog fynd â phersonau eraill, gan gynnwys unrhyw gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd (tra bydd y Deyrnas Unedig yn dal i fod yn ddarostyngedig i reolau'r Undeb Ewropeaidd) neu'r llywodraeth (pa un bynnag sy'n fwyaf perthnasol yn ôl natur y system ddsbarthu a weithredir).

Os oes sail resymol, neu alw am weithredu ar frys, mae'n bosibl y caiff gwarant ei hawdurdodi yn caniatáu i swyddog fynd i mewn i'r fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol pe bai angen.

Archwiliadau

Cynigir y caiff archwiliadau eu cyflawni heb eu cyhoeddi ymlaen llaw, yn rheolaidd neu ar sail risg ar amllder amrywiol ac yn berthynol i faint o garcasau defaid a gynhyrchir. Y bwriad yw y bydd pwerau swyddogion awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangreoedd mewn perthynas â ddsbarthu carcasau eidion a moch hefyd yn berthnasol mewn perthynas â ddsbarthu carcasau defaid. Mae'r rhain yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig:

- Archwilio carcasau yn y fangre;
- Archwilio unrhyw gofnodion mae'n ofynnol i'r gweithredwr eu cadw;
- Gwneud yn ofynnol cyflwyno copi'au neu ddyfyniadau o gofnodion;
- Dal gafael mewn cofnodion y mae'r swyddog yn credu y gall fod eu hangen fel tystiolaeth.

Ffurflen Ymateb

i'r

Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau cyffredinol

Dewiswch yr un sy'n eich disgrifio orau

- I. Ffermwr da byw
- II. Marchnad da byw
- III. Lladd-dy
- IV. Ffatri dorri nad yw'n gysylltiedig â lladd-dy
- V. Masnachwr mewn da byw neu gig nad yw wedi'i gynnwys yn (i) i (iii)
- VI. Arall (rhowch fanylion)

Cwestiwn 1

Ydych chi o blaid trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru?

- I. Ydw
- II. Nac ydw
- III. Sylwadau

Cwestiwn 2

Os ydych chi'n lladd-dy, ydych chi'n defnyddio system dosbarthu carcasau defaid ar hyn o bryd?

- I. Ydw, SEUROP.
- II. Ydw, system arall (rhowch fanylion o dan "sylwadau")
- III. Nac ydw
- IV. Sylwadau

Cwestiwn 3

Rydym yn cynnig esemptiad i ladd-dai sydd â thrwybwn o lai na 1,000 o ddefaid bob wythnos ar gyfartaledd blynyddol. Ydych chi'n credu bod y trothwy hwn wedi'i osod ar y lefel gywir?

- I. Ydw
- II. Nac ydw
- III. Sylwadau

Cwestiwn 4

Pa wybodaeth ddylai lladd-dai ei hysbysu i'w cyflenwyr mewn perthynas â dosbarthu carcasau ac yn unol â pha amserlen?

- I. Sylwadau

Cwestiwn 5

Pa wybodaeth gyfanredol ddylai HCC ei chyhoeddi?

- I. Sylwadau

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig ynghylch cyhoeddi'r rhestr o ffioedd a phrisiau?

- I. Ydw
- II. Nac ydw
- III. Pa elfennau ddylai gael eu cynnwys?
- IV. Sylwadau

Cwestiwn 7

Pa effaith, yn nhermau costau gweinyddu a chostau eraill, ydych chi'n disgwyl y byddai'r rheoliad hwn yn ei chael ar eich busnes? Rhwng resymau a thystiolaeth lle bo modd am eich ateb.

I. Sylwadau

Cwestiynau pellach

Cwestiwn 8: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcassau defaid yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y byddai? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leddfu effeithiau negyddol?

Cwestiwn 9: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut yr ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig '*Cyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcassau defaid yng Nghymru*' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: